



Croeso i'r pwnc a'r Adran

Helo bawb a chroeso i'r cwrs Safon Uwch Cymraeg. Rydym yn falch iawn eich bod yn bwriadu dewis Cymraeg. Os ydych chi dal yn pwysu a mesur ynglŷn ag astudio Cymraeg Safon Uwch, dyma fideo byr allai eich helpu o bosib.

<https://www.youtube.com/watch?v=rreKhH1kqGQ>

Cofiwch holi os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cwrs Safon Uwch.

Beth yw cynnwys y cwrs Safon Uwch ac Uwch gyfrannol Cymraeg?

<https://www.cbac.co.uk/media/4ibo3zv0/wjec-gce-welsh-first-language-spec-from-2015.pdf>

Mae'r cwrs yn gyfle gwych i astudio testunau newydd. Byddwn yn astudio nofel, drama, ffilm, cerddi modern, iaith a Gramadeg, hen gerddi a hen Gymraeg yn straeon y Mabinogi a gobeithio wir y byddwn yn gallu ymweld ag ambell ddrama lwyfan eleni hefyd. Bydd cyfle hefyd ichi ddefnyddio'ch creadigrwydd eleni a chael cyfle i ysgrifennu'n greadigol. Mae'r cwrs TGAU wedi bod yn sylfaen wych ichi barhau â'r cwrs Safon Uwch a byddwch yn adeliadu ar eich sgiliau dadansoddi, enghreifftio, cymharu, mynegi barn, dehongli, ymateb ac ymhelaethu ar lafar ac yn ysgrifenedig. Edrychwn 'mlaen i glywed eich barn am amrywiaeth o lenyddiaeth a llunyddiaeth a chewch gyfleoedd i drafod efo'ch gilydd ac efo'r athrawon mewn awyrgylch gartrefol a chefnogol.

6 uned dros ddwy flynedd yw'r cymhwyster Safon Uwch llawn ond cewch gymhwyster Uwch Gyfrannol ar ddiwedd blwyddyn 12.

Blwyddyn 12 – 3 uned:

Barddoniaeth a Iaith, 'Sgwennu ffeithiol a chreadigol, Llafar – ffilm a drama

Blwyddyn 13 – 3 uned:

Defnyddio'r Iaith, Yr hen Gymraeg, Llafar – nofel.

Gwaith Cychwynnol

- Gwylwch y rhaglen yma am Hedd Wyn y bardd. Pa ffeithiau ydych chi'n eu dysgu am Hedd Wyn? Gwnewch restr o ffeithiau am y bardd ac am y person sy'n cael ei ddarlunio.

<https://www.youtube.com/watch?v=4pVaUCVJI-g>

- Gwylwch y ffilm Hedd Wyn

<https://www.youtube.com/watch?v=w8pCOsmt0u0>

Recordiwch eich hunain yn trafod y cwestiynau canlynol: Sut mae'r Cynhyrchydd wedi darlunio Hedd Wyn yn y ffilm? Cymharwch y darlun a gawn yn y ffilm i'r hyn rydym yn ei ddysgu yn y rhaglen ddogfen? Enghreifftiwch.

Sut mae'r elfen o ffuglen ac o geisio apelio at gynulleidfa weledol yn amlygu ei hun yn y ffilm?

Gosod gwaith ymchwil

<https://www.barddas.cymru/rhifyn/345/>

- Cliciwch ar y cyswllt uchod er mwyn lawrlwytho'ch copi o Barddas am ddim!
- Dewiswch un gerdd sydd yn y cylchgrawn a gwnewch y tasgau canlynol.
- Gwnewch ychydig o waith ymchwil ar y bardd.
- Beth ydych chi'n ei ddysgu amdanynt?
- Pa gerddi eraill maen nhw wedi eu hysgrifennu?
- Beth yw neges y bardd yn y gerdd yn eich barn chi?
- Pa linellau yw eich hoff linellau yn y gerdd a pham eu bod yn arbennig yn eich barn chi?

Rhestr ddarllen sy'n cwmpasu'r pwnc

Bydd unrhyw ddarllen ffuglenol rydych yn ei wneud yn y Gymraeg yn werthfawr ar gyfer cwblhau Cymhwyster Uwch gyfrannol mewn Cymraeg.

Beth am nofel neu ddrama?

Martha, Jac a Sianco – Caryl Lewis

Llyfr Glas nebo – Manon Steffan Ross

Blasu – Manon Steffan Ross

Dan Gadarn Goncrïd – Mihangel Morgan

O Tyn y Gorchudd – Angharad Price

Wal – Mari Emlyn

Blodeuwedd – Saunders Lewis

Hi oedd fy ffrind – Bethan Gwanas

Llyfrau Gwybodaeth

Gwerthfawrogi'r Chwedlau – Rhiannon Ifans

Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu – J Elwyn Hughes

Cylchgronau

Dyma adeg gwych i danysgrio i 'Golwg' neu 'Barddas' neu 'Barn'. Gallwch bori drwy wefan er mwyn cael syniadau am lyfrau i'w darllen.

<http://www.gwales.com/magazine/?tsid=21>